



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru canllawiau fframwaith dysgu blynyddol



1. Introduction

Mae'r ddogfen hon wedi'i hatgynhyrchu a'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru gyda chaniatâd caredig Rhaglen Sgrinio NIPEC GIG Lloegr.

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo ymarferwyr NIPEC sy'n ymgymryd ag archwiliadau babanod newydd-anedig NIPEC, i gofnodi a chynnal eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o ran sgrinio NIPEC.

Dylai ymarferwyr NIPEC gwblhau'r fframwaith dysgu blynyddol er mwyn:

- ▣ dangos tystiolaeth o ddysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol parhaus
- ▣ cynnal cyfoesedd o ran safonau cenedlaethol, canllawiau clinigol NIPEC a newidiadau
- ▣ galluogi darparwyr lleol i arddangos sicrwydd ansawdd yn lleol
- ▣ hyrwyddo cysondeb yn ymarferol ar draws yr holl ddisgyblaethau (meddygaeth, bydwreigiaeth a nyrsio)

Bwriedir i'r fframwaith dysgu blynyddol gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr NIPEC cymwys, fel y'u diffinnir yn adran 13 Llawlyfr NIPEC, yn ogystal â chadarnhawyr enwebedig. Argymhellir bod cadarnhawyr enwebedig yn yn ymarferydd NIPEC. Gall y fframwaith hefyd gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr NIPEC ym maes gofal sylfaenol sy'n ymgymryd ag **archwiliadau babanod newydd-anedig** NIPEC.

Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a disgwyliadau y rolau hyn oll yn adran 'gofynion a disgwyliadau' y canllawiau hyn.

2. Argymhellion

Argymhellir cwblhau'r tair elfen ganlynol o'r fframwaith yn flynyddol:

- ▣ Modiwl e-ddysgu NIPEC (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec)
- ▣ trafodaeth ynglŷn â safonau cenedlaethol, llwybrau clinigol, hyfforddiant ac adnoddau addysgol
- ▣ mynychu sesiwn ddiweddarau NIPEC lleol neu genedlaethol

Argymhellir yr elfennau canlynol. Fodd bynnag, gellir pennu'r gofyniad i gwblhau'r rhain, neu'r rheoleidd-dra o ran eu cwblhau, trwy gytundeb lleol:

- ▣ NIPEC yn gweithio mewn partneriaeth: ymweliadau â chlinigau arbenigol neu drafodaethau / cyfarfodydd amlddisgyblaethol
- ▣ Myfyrdod NIPEC: trafodaeth fyfyrionol neu adroddiad myfyriol personol

Gellir cwblhau cydrannau o'r fframwaith drwy gydol y flwyddyn wrth i gyfleoedd godi. Fodd bynnag, dylid trefnu cymeradwyad terfynol i adolygu'r dystiolaeth o fewn y fframwaith a chydabod bod gofynion lleol wedi'u bodloni.

3. Gofynion a disgwyliadau

Mae'r adran hon yn nodi'r gofynion a'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr NIPEC cymwys a chadarnhawyr.

3.1 Gofynion ar gyfer ymarferwyr NIPEC

Rhaid i ymarferwyr NIPEC fodloni'r canlynol:

- ✦ meddu ar gymhwyster proffesiynol (cofrestredig â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)) neu'n gymwysedig fel cydymaith meddygol)
- ✦ llawn gymwys fel ymarferydd sgrinio NIPEC gweithredol, fel y'i diffinnir yn adran 13 llawlyfr NIPEC.

3.2 Yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan ymarferwyr NIPEC

Rhaid i ymarferwyr NIPEC fodloni'r disgwyliadau canlynol.

Cyfrifoldeb proffesiynol

Mae gan ymarferwyr NIPEC gyfrifoldeb proffesiynol i gynnal cyfoesedd a chynnal eu sgiliau mewn perthynas ag archwiliadau babanod newydd-anedig NIPEC. Mae hyn yn cynnwys ymroi i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

3.3 Gofynion ar gyfer cadarnhawyr

Rhaid i'r cadarnhawyr enwebedig feddu ar gymhwyster proffesiynol (cofrestredig â'r GMC neu'r NMC, neu'n gymwysedig fel cymdeithion meddygol)

3.4 Yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan gadarnhawyr

Rhaid i gadarnhawyr enwebedig fodloni'r disgwyliadau canlynol.

Didueddrwydd

Rhaid i gadarnhawyr arddel didueddrwydd wrth gwblhau'r fframwaith, gan osgoi unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

Cydraddoldeb

Rhaid i gadarnhawyr ymroi i gwblhau'r fframwaith heb ystyried hil, crefydd, cenedligrwydd, rhyw neu hynafedd yr ymarferydd NIPEC.

Cyfrinachedd

Rhaid i gadarnhawyr gynnal cyfrinachedd ac ymatal rhag rhannu gwybodaeth ag unrhyw un nad yw'n ymwneud â'r fframwaith dysgu. Dylai llwybrau lleol fod mewn grym er budd uwchgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch arferion ymarferwyr NIPEC.

Ymagwedd

Rhaid i gadarnhawyr gynnal ymagwedd adeiladol a chefnogol trwy gydol y broses o gwblhau'r fframwaith.

4. Cydrannau'r fframwaith dysgu blynyddol

4.1 Modiwl e-ddysgu NIPEC (argymhellir yn flynyddol)

Mae modiwl NIPEC GIG Cymru wedi'i anelu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymgymryd ag archwiliad NIPEC o fewn y GIG yng Nghymru ac sydd wedi cymhwyso fel ymarferwyr NIPEC.

Mae'n cynnwys pedair elfen sgrinio'r archwiliadau corfforol:

- ❏ llygaid
- ❏ y galon
- ❏ cluniau
- ❏ ceilliau (gwrywod)

Dylid cwblhau'r modiwl e-ddysgu'n flynyddol.

Fel ychwanegiad buddiol at yr hyfforddiant ffurfiol, mae'r modiwl yn defnyddio animeiddiad i ddangos arferion clinigol da.

Insert instructions on how to access the module

4.2 Safonau cenedlaethol, llwybrau clinigol, hyfforddiant ac adnoddau addysg (argymhellir yn flynyddol)

Gellir defnyddio'r rhestr wirio a ddarperir o fewn y fframwaith i sicrhau bod gan ymarferwyr NIPEC ddealltwriaeth ymarferol dda o'r system NIPEC ehangach:

- ❏ Safonau a llwybrau sgrinio NIPEC a chanllawiau, gan gynnwys y rhai ar gyfer llygaid, y galon, cluniau a cheilliau (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec)
- ❏ llwybrau atgyfeirio (lleol)
- ❏ llawlyfr NIPEC (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec)
- ❏ Pob Plentyn yn Cyfrif – 'Eich Beichiogrwydd a'ch Esgoriad' [Pob Plentyn: Eich Beichiogrwydd a'ch Esgoriad \(pagesuite-professional.co.uk\)](https://pagesuite-professional.co.uk)

4.3 Presenoldeb mewn sesiwn ddiweddarau NIPEC leol neu genedlaethol (argymhellir yn flynyddol)

Dylid defnyddio'r rhan hon o'r fframwaith i gofnodi presenoldeb mewn sesiwn ddiweddarau NIPEC leol neu genedlaethol.

Gellir ei defnyddio hefyd i gofnodi diwrnodau astudio eraill sy'n gysylltiedig â NIPEC neu enghreifftiau o ddysgu hunangyfeiriol fel tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae enghreifftiau o'r hyn y gellid ei ddogfennu yn cynnwys:

- ❏ presenoldeb mewn sesiynau diweddarau blynyddol NIPEC lleol/cenedlaethol (argymhellir yn flynyddol)
- ❏ presenoldeb mewn cyfarfodydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol mewn perthynas â NIPEC
- ❏ ymchwil neu enghreifftiau o ddarllen hunangyfeiriol mewn perthynas â NIPEC
- ❏ cyfranogiad mewn archwiliadau NIPEC – gan gynnwys archwiliadau lleol

4.4 NIPEC – gweithio mewn partneriaeth: ymweliadau â chlinigau arbenigol neu drafodaethau / cyfarfodydd amlddisgyblaethol (argymelledig)

Mae llwybrau atgyfeirio diogel ac effeithlon at ofal arbenigol lleol, yn dilyn canfyddiadau archwiliad positif / amheuir annormaledd, yn hanfodol i broses NIPEC.

Mae llwybrau llwyddiannus yn dibynnu ar ddulliau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol a chyfathrebu rhngadrannol effeithiol. Gellir defnyddio'r rhan hon o'r fframwaith i hyrwyddo perthnasau lleol a helpu ymarferwyr NIPEC i ddatblygu arolwg ehangach y tu hwnt i'r archwiliad ei hun.

Gall ymarferwyr NIPEC ddogfennu:

- ymweliadau â chlinigau arbenigol mewn perthynas ag archwiliad NIPEC gan gynnwys uwchsain y cluniau, clinig cardioleg pediatrig, clinig offthalmoleg pediatrig a chlinigau dilynol ag ymgynghorwyr newydd-enedigol
- cyfranogiad mewn trafodaethau neu gyfarfodydd amlddisgyblaethol mewn perthynas â chanfyddiadau archwiliad NIPEC

4.5 Myfyrdod NIPEC: trafodaeth fyfyrion neu gyfrif myfyriol personol (argymelledig)

Mae fframwaith dysgu blynyddol NIPEC yn rhoi cyfle i ymarferwyr NIPEC gynnal myfyrdod blynyddol mewn perthynas ag archwiliad NIPEC y maent wedi'i gwblhau.

Mae'r NMC, y GMC a'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn cydnabod pwysigrwydd ymarfer myfyriol er budd nodi bylchau mewn gwybodaeth neu sgiliau ac atal materion neu ddigwyddiadau tebyg rhag digwydd eilwaith.

Defnyddiwyd themâu o ddogfennau'r NMC yn adran fyfyrdod y fframwaith, gan gynnwys:

- disgrifiad digwyddiad
- nodi'r hyn y byddai'r ymarferydd yn ei newid neu'n ei wella y tro nesaf
- nodi nodau dysgu ar sail y profiad

Mae cyfle wedi'i gynnwys hefyd i'r ymarferwyr NIPEC gydnabod yr hyn y maent wedi'i gyflawni'n effeithiol, gan y gall hyn fod yn gam pwysig o ran nodi ac ymgorffori arferion da. Gall hyn fod o ganlyniad i fyfyrdod personol neu'n seiliedig ar adborth gan bobl eraill (er enghraifft, adolygwyr cymheiriaid yn tynnu sylw at arfer da).

5. Cymeradwyad terfynol blynyddol

Dylai'r cymeradwyad terfynol blynyddol gael ei ddefnyddio fel cyfle i ymarferwyr / cadarnhawyr NIPEC adolygu'r dystiolaeth o fewn y fframwaith a chydabod bod yr argymhellion blynyddol, ynghyd ag unrhyw ofynion lleol, wedi'u bodloni.

Dylid ymdrin yn lleol ag unrhyw faterion sydd heb eu datrys neu sydd angen eu huwchgyfeirio ymhellach yn ôl cytundeb â'r sefydliad.

Mae'r ddogfen hon wedi'i hatgynhyrchu a'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru gyda chaniatâd caredig Rhaglen Sgrinio NIPE GIG Lloegr.